WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2016 – **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 698A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwiliad.cymru.

Mae'r tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gabrielle Smith, Anthony Ford, Jason Garcia ac Anthony Veale.

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol ac mae'n gwneud cynnydd wrth roi sylw i argymhellion blaenorol. Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn gweithio'n dda ond gellid gwella sut y mae'r bwrdd yn adrodd ar berfformiad ariannol yn erbyn strategaeth y gyllideb a cherrig milltir y cynllun tymor canolig integredig.


Adroddiad cryno

Cyd-destun 5

Prif ganfyddiadau 6

Argymhellion 9

Adroddiad manwl

Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheolaeth ariannol yn parhau i weithio'n dda ond gellid gwella cynnwys a fformat adroddiadau ariannol 11

Mae cynllunio ariannol a phennu cyllidebau'n rhan hanfodol o ddull yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac maent yn gadarn ar y cyfan 11

Mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn foddhaol 12

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a throsolwg gweithredol yn gadarn ond gellid gwella cynnwys a fformat adroddiadau ariannol 12

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni balans ariannol yn gyson ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2016-17 14

Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu corfforaethol da'n gadarn ar y cyfan ac maent yn parhau i aeddfedu 15

Mae'r trefniadau ar gyfer gwaith cynllunio strategol a gweithredol yn gweithio'n dda, ac er bod y trefniadau ar gyfer monitro perfformiad yn foddhaol, mae trefniadau adrodd y bwrdd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig angen eu datblygu ymhellach. 15

Mae'r Bwrdd wedi rhoi sicrwydd bod ei ofynion sicrwydd a'i strwythurau llywodraethu'n gwella craffu ar risgiau strategol 19

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da i wella trefniadau llywodraethu ar gyfer ansawdd ac mae'r trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion yn foddhaol 23

## Atodiadau

Atodiad 1 – Canfyddiadau o'r arolwg o aelodau'r bwrdd 28

Atodiad 2 – Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion asesiad strwythuredig 2016 43

# Adroddiad cryno

## Cyd-destun

1 Mae'r asesiad strwythuredig yn edrych ar y trefniadau sydd gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) i gefnogi llywodraethu da ac i wneud defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwaith wedi asesu cadernid trefniadau rheolaeth ariannol, digonolrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaeth galluogwyr allweddol sy'n sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau, a'r cynnydd a wnaethpwyd i roi sylw i faterion y mae angen eu gwella a amlygwyd eisoes. Canfu ein gwaith yn 2015 fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau wedi parhau i esblygu gyda chynnydd da mewn nifer o feysydd allweddol a'i bod yn debygol o fantoli'r gyllideb yn 2015-16.

2 Mae gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi adolygu unwaith eto'r trefniadau rheolaeth ariannol sydd gan yr Ymddiriedolaeth a'r cynnydd a wnaethpwyd i roi sylw i argymhellion y flwyddyn flaenorol. Eleni, rydym hefyd wedi gwneud gwaith cymharol mewn tri maes. Mae'r meysydd a ddewiswyd a'u cwmpas yn seiliedig ar ein dadansoddiad ni o faterion Cymru gyfan ac ar drafodaeth ag ysgrifenyddion byrddau. Mae meysydd ein gwaith cymharol yn cynnwys:

- fformat adrodd ariannol i fyrddau;
- trefniadau ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a monitro ac adrodd ar gyflawni'r cynlluniau hyn[1]; a
- dulliau o fapio risgiau a sicrwydd a datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd.[2]

3 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau ein harchwiliad lleol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Ar ôl cadarnhau adroddiadau archwilio lleol, byddwn yn cwblhau dadansoddiad Cymru gyfan o dri maes y gwaith cymharol, i'w rannu â sefydliadau'r GIG a fforymau Cymru gyfan perthnasol, fel grwpiau cyfarwyddwyr cyllid, cyfarwyddwyr cynllunio ac ysgrifenyddion byrddau. Bwriedir i'r dull hwn gyfrannu at ddysgu, trwy rannu dulliau ac arferion da rhwng sefydliadau'r GIG. Bydd cyhoeddi ein dadansoddiad cymharol o ddatblygu ac adrodd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei ategu gan adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, a ddisgwylir yn gynnar yn 2017.

4 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweliadau, arsylwi mewn pwyllgorau, adolygu dogfennau a data perfformiad, ffurflenni gwybodaeth gan ysgrifenyddion byrddau a chyfarwyddwyr cynllunio a chanfyddiadau arolwg o aelodau byrddau. Ymatebodd tua 119 o aelodau byrddau i'n harolwg, cyfradd ymateb o 59 y cant.

[1] Os nad oes Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i gymeradwyo, rydym wedi edrych ar y cynllun blynyddol.

[2] Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn disgrifio'r risgiau wrth gyflawni amcanion corfforaethol, y mesurau rheoli mewnol i liniaru'r risgiau hynny a'r sicrwydd sydd ei angen ar y bwrdd i wybod bod y mesurau rheoli'n effeithiol a bod risgiau'n cael eu rheoli.

Cafwyd ymateb gan 13 allan o 18 aelod bwrdd yr Ymddiriedolaeth a oedd wedi'u gwahodd i gymryd rhan. Hoffem ddiolch i'r aelodau hynny a ymatebodd i'n harolwg am eu hamser a'u cyfraniad. Mae dadansoddiad cymharol o ganfyddiadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

# Prif ganfyddiadau

5 Ein casgliad cyffredinol o waith asesiad strwythuredig 2016 yw bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol ac yn gwneud cynnydd wrth roi sylw i argymhellion blaenorol. Mae'r trefniadau rheolaeth ariannol yn gweithio'n dda ond gellid gwella adrodd gan y bwrdd ar berfformiad ariannol yn erbyn strategaeth y gyllideb a gellid gwella cerrig milltir y cynllun tymor canolig integredig. Ceir crynodeb isod o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn.

## Cynllunio a rheolaeth ariannol

6 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth gwelwyd fod ei threfniadau ar gyfer cynllunio a rheolaeth ariannol yn dal i weithio'n dda ond gellid gwella cynnwys a fformat adroddiadau ariannol.

### Cynllunio ariannol

7 Mae cynllunio ariannol a phennu cyllidebau'n rhan allweddol o ffordd yr Ymddiriedolaeth o gynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac ar y cyfan maent yn gadarn. Mae pennu cyllideb yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu rhwng cyfarwyddwyr isadrannau a'r tîm cyllid er mwyn dyrannu adnoddau i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol. I gyflawni balans ariannol yn 2016-17, mae'r strategaeth gyllidebol yn cael ei hategu gan arbedion gwerth £1.8 miliwn i wneud iawn am bwysau cost, yn ogystal â chreu cronfa fuddsoddi ar gyfer datblygiadau gwasanaeth. Mae'r strategaeth gyllidebol yn destun craffu fel rhan o broses graffu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gyda chynigion ar gyfer buddsoddi'n destun proses graffu ar wahân.

8 Mae cyfarwyddwyr isadrannau'n gyfrifol am ganfod arbedion ac am reoli risgiau sydd ynghlwm wrth eu cyflawni gydag asesiad risg o gynlluniau cynilo'n cael ei gynnal gan y tîm Cyllid a fydd yn ddibynnol ar lefel yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r holl gynlluniau cynilo'n cynnwys manylion am natur y risgiau, a all ei gwneud yn fwy anodd i asesu'r risg.

9 Mae rhai arbedion yn dibynnu ar leihau neu dynnu cyllid i sefydliadau allanol yn ôl ac efallai y bydd angen negodi dadfuddsoddiad o'r fath. Rhaid asesu risg arbedion o'r fath yn briodol gyda'r anawsterau posibl yn cael eu cydnabod. Yn achos pob cynllun arbed sydd â risgiau uchel ynghlwm wrthynt, dylid ystyried cynlluniau arbed amgen cyn dechrau'r flwyddyn.

### Rheolaeth a stiwardiaeth ariannol

10 Mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn foddhaol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith clir o rolau a chyfrifoldebau, gyda gweithgarwch a phrosesau rheoli priodol ar waith. Mae gweithdrefnau rheolaeth gyllidebol wedi cael eu hasesu fel rhai risg isel heb broblemau arwyddocaol wedi'u hamlygu mewn Archwiliad Mewnol. Mae rhai mesurau rheoli mewnol effeithiol ar waith i ategu adrodd ariannol ond gellid gwella rhai prosesau a gweithdrefnau.

### Monitro ac adrodd ariannol

11 Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a throsolwg gweithredol yn gadarn ond gellid gwella fformat a chynnwys adroddiadau ariannol. Mae trefniadau'r tîm Cyllid a'r tîm rheolwyr gweithredol ar gyfer craffu ar berfformiad ariannol ar lefel weithredol wedi ennill eu plwyf.

12 Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth ariannol amserol, sy'n gydnaws â'r wybodaeth a adroddir bob mis i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae fformat a chynnwys yr adroddiadau cyllid yn ei gwneud yn anodd i gadw golwg ar newidiadau neu berfformiad yn erbyn y strategaeth gyllidebol fel y nodwyd yn y Cynllun Tymor Canolog Integredig, yn enwedig a yw arbedion ac (ail)fuddsoddiadau ar y trywydd cywir.

13 Yn 2015-16, canfu strategaeth gyllidebol yr Ymddiriedolaeth £1.12 miliwn i'w ail-fuddsoddi mewn rhaglenni gwella iechyd. Ni chafodd llawer o wybodaeth ar gynnydd ei hadrodd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn felly buom yn edrych sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi monitro ac adrodd sut yr oedd wedi cyflawni'r ailfuddsoddiad hwn ar lefel weithredol. Bu oedi cyn cwblhau'r cynllun ail-fuddsoddi, ac arweiniodd hynny at oedi cyn recriwtio staff i arwain a datblygu rhaglenni gwaith newydd. O ganlyniad, roedd tanwariant yng nghyllideb y gyfarwyddiaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

### Perfformiad ariannol

14 Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyddo'n gyson i gael balans ariannol blynyddol ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2016-17. Yn 2015-16, fel yn y blynyddoedd blaenorol, cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth warged bychan ar ôl broceriaeth a oedd wedi'i drefnu â Llywodraeth Cymru. Ar ddiwedd mis Hydref 2016, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni hanner yr £1.8 miliwn o arbedion a nodwyd yn y strategaeth gyllidebol.

## Llywodraethu a sicrwydd

15 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd bwrdd yr Ymddiriedolaeth gwelsom fod y trefniadau hyn yn aeddfedu.

## Cynllunio strategol ac adrodd

16 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaith cynllunio strategol a gweithredol yn gweithio'n dda, ac mae'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad yn foddhaol, mae adrodd i'r bwrdd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig angen ei ddatblygu ymhellach. Mae trefniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi dull integredig o'r gwaelod i fyny gyda rolau a chyfrifoldebau ar gyfer datblygu a chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'u datgan yn glir a dealladwy. Cafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016 gymeradwyaeth y gweinidog ac mae amserlen yr Ymddiriedolaeth i ddiweddaru'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y flwyddyn nesaf ar amser a dylai gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol.

17 Ni fu llawer o newid yn y trefniadau i fonitro perfformiad ac adrodd ar y dangosyddion gwasanaeth, ansawdd ac adnoddau allweddol a amlinellwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ers y llynedd. Mae'r argymhellion a wnaethpwyd gennym ar adrodd i'r bwrdd ar ddangosyddion allweddol y Cynllun Tymor Canolig Integredig a cherrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cael sylw'n rhannol gyda'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i fireinio ei hadroddiadau perfformiad ar gyfer y Bwrdd.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a sicrwydd

18 Mae'r Bwrdd wedi datgan ei ofynion sicrwydd tra bod newidiadau i strwythurau llywodraethu'n gwella craffu ar risgiau strategol. Wrth ddod i'r casgliad hwn gwelsom fod:

- fframwaith sicrwydd y bwrdd yn awr ar waith, gyda'r gwaith i gyflwyno'r fframwaith rheoli risg yn mynd yn ei flaen; ac
- mae newidiadau i strwythurau'r pwyllgor yn gwella craffu ar risgiau strategol gyda chynlluniau ar waith i wella effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgor ymhellach

19 Mae penodiadau diweddar i rolau llywodraethu a rheoli risg wedi rhoi hwb yr oedd angen mawr amdano i gwblhau fframwaith sicrwydd y bwrdd ac i adolygu strwythurau llywodraethu, effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgor, ac anghenion datblygiad. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio i leihau risgiau'n barhaus gyda gofynion olyniaeth yn yr arfaeth ymhlith cyfarwyddwyr anweithredol.

20 Mae aelodau'r Bwrdd yn fodlon ar y cyfan â'r trefniadau ar gyfer sicrwydd y bwrdd. Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn ddogfen 'fyw' sy'n helpu i sicrhau bod risgiau strategol a gweithredoedd lliniaru'n destun craffu amserol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Fodd bynnag, dim ond cyfeirnod sy'n cysylltu'r risgiau strategol sydd wedi'u cofnodi yn fframwaith sicrwydd y bwrdd â blaenoriaethau strategol ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd i farnu ansawdd y mesurau rheoli a'r sicrwydd.

### Cynnydd o ran rhoi sylw i faterion ac argymhellion a ddeilliodd o asesiadau strwythuredig blaenorol

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da i wella trefniadau llywodraethu ar gyfer ansawdd gyda'r fframwaith ansawdd ac effaith wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn ddiweddar. Mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod storïau defnyddwyr gwasanaeth neu gymunedau'n datblygu i fod yn nodwedd reolaidd o gyfarfodydd y bwrdd a disgwylir y bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn 2017. Yn y cyfamser, mae prosesau ar gyfer dysgu yn sgil cwynion a digwyddiadau'n parhau i wella gyda thystiolaeth bod dysgu'n ymwreiddio.

22 Mae trefniadau i olrhain cynnydd i roi sylw i argymhellion yn foddhaol gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn defnyddio'r cofnod olrhain i herio cadernid ymatebion y rheolwyr a chyflymder y cynnydd. Fodd bynnag, mae un argymhelliad o 2014, nad yw'r Ymddiriedolaeth byth wedi rhoi sylw iddo.

# Argymhellion

23 Ceir manylion am yr argymhellion sydd wedi deillio o waith asesiad strwythurol 2016 yn Arddangosyn 1. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth hefyd ddal ati i ganolbwyntio ar weithredu argymhellion blaenorol nad ydynt wedi'u cwblhau hyd yma. Gwelir yr argymhellion blaenorol yn Arddangosyn 2, 3 a 4.

24 Bydd ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n amlinellu sut y maent yn bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn yn cael ei gynnwys yn Atodiad 2 ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

### Arddangosyn 1: Argymhellion 2016

| Argymhellion 2016 | |
|---|---|
| **Cynllunio ariannol** | |
| A1 | Pan fydd arbedion yn dibynnu ar leihau neu dynnu cyllid i sefydliadau allanol yn ôl, dylai'r Ymddiriedolaeth drafod ei chynlluniau â'r sefydliadau hyn cyn cwblhau cyllidebau'r gyfarwyddiaeth. |
| **Cynllunio ariannol** | |
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbedion unigol yn cael eu cofnodi ar gyfer pob achos. |
| **Cynllunio ariannol** | |
| A3 | Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cynlluniau (ail)fuddsoddi'n cynnwys digon o fanylion am gostau ac amserlenni mor gynnar â phosibl yn y broses o bennu'r gyllideb. |

| Argymhellion 2016 |
| --- |
| **Adrodd ariannol**<br>A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu fformat a chynnwys adroddiadau ariannol y bwrdd er mwyn:<br>• sicrhau bod gwybodaeth yn galluogi aelodau'r bwrdd i olrhain perfformiad yn erbyn strategaeth y bwrdd, gan gynnwys arbedion a buddsoddiadau;<br>• rhoi sicrwydd nad yw ansawdd, diogelwch a darpariaeth gwasanaethau a rhaglenni gwaith yn cael eu heffeithio gan berfformiad ariannol; a<br>• rhoi cysylltiadau gwell at y fframwaith cyflawni perfformiad yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. |
| **Fframwaith sicrwydd y Bwrdd**<br>A5 Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut i wneud y cysylltiad yn un mwy amlwg, yn hytrach na dibynnu ar gyfeirnod yn unig, rhwng y blaenoriaethau strategol a'r risgiau strategol a gofnodwyd yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd, er enghraifft, trwy atodi rhestr o'r blaenoriaethau. |
| **Llywodraethu ansawdd**<br>A6 Dylai'r Ymddiriedolaeth gytuno ar ba grŵp rheoli fydd yn cadw trosolwg ar y camau a argymhellwyd sydd wedi deillio o'r 'Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd o Ddigwyddiadau, Pryderon a Hawliadau' nes bydd pob cam wedi cael sylw a bod newidiadau wedi'u gwneud. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheolaeth ariannol yn parhau i weithio'n dda ond gellid gwella cynnwys a fformat adroddiadau ariannol

25 Mae ein gwaith asesiad strwythuredig yn 2016 wedi edrych ar y camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gyflawni balans ariannol ac i sicrhau cynaliadwyedd ariannol mwy tymor hir. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull o gynllunio ariannol, y mesurau rheoli a stiwardiaeth ariannol a'r rhai ar gyfer canfod a monitro arbedion ac (ail)fuddsoddi. Cyflwynir ein canfyddiadau isod.

### Mae cynllunio ariannol a phennu cyllidebau'n rhan hanfodol o ddull yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac maent yn gadarn ar y cyfan

26 Mae'r broses cynllunio ariannol yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r cylch cynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Mae rolau a chyfrifoldebau yn y broses cynllunio ariannol yn ddealladwy. Mae pennu'r gyllideb yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu rhwng cyfarwyddwyr isadrannau a'r tîm cyllid gyda phartneriaid busnes cyllid yn gysylltiadau allweddol rhwng y tîm cyllid corfforaethol a'r is-adran. Dywedodd staff fod y model hwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng y cyllid sydd ar gael a disgwyliadau perfformiad.

27 Mae canllaw cynllunio integredig yn amlinellu'r elfennau allweddol sydd i'w hystyried wrth ddatblygu cynlluniau ariannol lleol i ategu blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r tîm Cyllid yn cydlynu'r broses o bennu'r gyllideb, yn ogystal â herio rhagdybiaethau ariannol mewn ffordd adeiladol.

28 Mae trafodaethau'n awr yn canolbwyntio mwy ar sut y mae agweddau allweddol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig – cyllid, y gweithlu a gweithgarwch – yn cael eu hintegreiddio a'u halinio'n well â blaenoriaethau ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. Dywedodd staff wrthym ei bod yn mynd yn fwy a mwy anodd i ganfod arbedion ond bod y broses gynllunio integredig yn helpu i gael trafodaethau am y gyllideb ar wneud gwelliannau cost.

29 Mae cynlluniau ariannol drafft yn destun craffu gan y tîm rheolwyr gweithredol fel rhan o'r broses gynllunio integredig ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig gyda phroses graffu ar wahân i gytuno ar gynigion ar gyfer (ail)fuddsoddi. Mae cynigion ar gyfer (ail)fuddsoddi'n seiliedig ar y model pum achos a argymhellir gan Drysorlys EM. Cafodd y dull hwn ei gyflwyno'r llynedd, ac mae'n annog talu sylw i oblygiadau'r gwahanol opsiynau ar gyfer (ail)fuddsoddi'n hytrach na dim ond gofyn am gynnydd yn y gyllideb. Mae pob cynnig yn cael isafswm sgôr gan y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid yn erbyn set o feini prawf.

30 Mae’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn seiliedig ar wariant mis 6 yn y flwyddyn gyfredol, wedi’i addasu ar gyfer pwysau costau a thargedau arbedion. I gyflawni balans ariannol yn 2016-17, mae’r gyllideb yn cael ei hategu gan gynlluniau cynilo gwerth £1.8 miliwn (1.57% o gyllideb graidd yr Ymddiriedolaeth). Mae cynlluniau cynilo’n gyfuniad o arbedion cyflog a digyflog i wneud iawn am bwysau costau ac i greu cronfa fuddsoddi i ariannu datblygiadau mewn gwasanaethau. Ar ôl ei gymeradwyo bydd cyllid (ail)fuddsoddi yn cael ei integreiddio o fewn strwythurau a chyfriflyfrau ar gyfer y cyfarwyddiaethau perthnasol gyda chynigion llwyddiannus yn cael eu hategu gan gynlluniau gweithredu. Cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth gyllideb yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17 fel rhan o broses gymeradwyo’r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

31 Mae deiliaid cyllidebau’n gyfrifol am ganfod arbedion a chynlluniau cyflawni cysylltiedig. Mae cynlluniau cynilo (mae 45 o gynlluniau wedi’u cynnwys yng nghyllideb 2016-17) yn cael eu hasesu am risgiau gan y tîm Cyllid ar gyfer ansicrwydd o ran eu cyflawni a’u heffaith ar y gwasanaeth yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan ddeiliaid cyllidebau ar natur y risg. Rydym wedi adolygu’r rhestr o gynlluniau cynilo a gwelwyd fod pob cynllun wedi bod yn destun asesiad risg ond nad oedd gwybodaeth ar natur y risgiau sy’n gysylltiedig â 13 o gynlluniau unigol wedi’i chofnodi, Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i’r tîm Cyllid i asesu lefel y risg sy’n gysylltiedig â phob cynllun.

32 Mae rhai cynlluniau cynilo’n dibynnu ar leihau neu dynnu cyllid i sefydliadau allanol yn ôl, ac mae’n bosibl y bydd angen negodi dadfuddsoddiadau o’r fath. Felly, mae’n bwysig bod risgiau sy’n gysylltiedig ag arbedion o’r fath yn cael eu hasesu’n briodol gydag anawsterau posibl yn cael eu cydnabod. Gwelsom fod y gyllideb ar gyfer un gyfarwyddiaeth wedi’i chadarnhau cyn i’r Ymddiriedolaeth hysbysu sefydliad allanol o’i bwriad i dynnu cyllid yn ôl. Roedd lefel yr arbedion arfaethedig yn fychan (£30,000) yn yr achos hwn o’i gymharu â tharged arbedion yr Ymddiriedolaeth ond roedd yn cyfrif am un rhan o bump o darged arbedion y gyfarwyddiaeth. Cafodd cyhoeddusrwydd anffafriol yn sgil tynnu cyllid yn ôl ei nodi’n amlwg fel risg er bod y cynllun wedi’i asesu fel un risg isel o ran ei gyflawni. Daeth i’r amlwg yn y diwedd na allai’r gyfarwyddiaeth dynnu’r cyllid yn ôl a disgwylir i’r diffyg yn yr arbedion gael ei osod yn erbyn tanwariant ar y gyllideb.

## Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn foddhaol

33 Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith clir o rolau a chyfrifoldebau, gyda gweithgarwch a phrosesau rheoli priodol ar waith. Mae gweithdrefnau rheoli’r gyllideb wedi cael eu hasesu fel rhai risg isel yn dilyn Archwiliad Mewnol.

34 Daeth ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol i’r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth fesurau rheoli mewnol effeithiol ar waith ar gyfer adrodd ariannol. Fodd bynnag, roedd ein Harchwiliad o’r Datganiadau Ariannol yn cynnwys nifer o argymhellion i helpu gwelliannau sy’n gysylltiedig â stiwardiaeth asedau, trefniadau secondio a pharatoi’r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol.

## Mae trefniadau ar gyfer monitro a throsolwg gweithredol yn gadarn ond gellid gwella cynnwys a fformat adroddiadau ariannol

35 Mae trefniadau sefydledig ar waith i graffu ar berfformiad ariannol gyda'r tîm cyllid yn monitro cyllidebau'n ofalus ac yn olrhain arbedion ac (ail)fuddsoddiadau o fis i fis. Mae cyfarfodydd misol rhwng y tîm cyllid a rheolwyr isadrannau a chyfarwyddiaethau'n gyfle i graffu ar y sefyllfa ariannol o ran cyllidebau, newidiadau i symudiadau yn y gyllideb, risgiau ac unrhyw gamau lliniaru i sicrhau bod cyllidebau'n aros ar y trywydd cywir.

36 Mae tîm y rheolwyr gweithredol yn craffu ar y sefyllfa ariannol gyffredinol bob chwarter, gan gynnwys gwybodaeth fanwl ar berfformiad cynlluniau cynilo ac (ail)fuddsoddi unigol. Mae adolygiadau perfformiad canol a diwedd blwyddyn o'r cyfarwyddiaethau gan y tîm rheoli gweithredol yn rhan o graffu ychwanegol ar berfformiad ariannol i sicrhau bod camau cywirol yn cael eu cymryd mewn achosion o orwariant neu danwariant yn erbyn y gyllideb.

37 Mae'r Bwrdd yn craffu ar berfformiad ariannol ac, fel rhan o waith archwilio eleni buom yn edrych ar gynnwys yr adroddiadau ariannol a gyflwynwyd i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth ariannol amserol, sy'n cyfateb i'r ffigurau a'r amrywiadau yn y gyllideb yr adroddir arnynt bob mis i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae fformat a chynnwys yr adroddiadau ariannol yn ei gwneud yn anodd i olrhain perfformiad yn erbyn strategaeth y gyllideb a geir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn benodol:

- mae'r adroddiad ar y cyfan yn un naratif sy'n ei gwneud yn anodd i weld y negeseuon allweddol ar yr olwg gyntaf.
- nid oes gwybodaeth i ddangos a yw'r arbedion a'r (ail)fuddsoddiadau arfaethedig ar y trywydd i gyflawni'r hyn a fwriadwyd gan fod y ddwy elfen wedi'u cydgrynhoi o fewn y llinell wariant.
- nid oes gwybodaeth na naratif i roi sicrwydd nad yw tanwariant yn effeithio ar ansawdd, diogelwch neu ddarpariaeth gwasanaethau neu raglenni gwaith arfaethedig, yn enwedig pan fo llawer o'r tanwariant hwnnw'n gysylltiedig â swyddi gwag. Mae'r adroddiad ariannol ym mis 7 yn dangos tanwariant o £0.8 miliwn yn y gyllideb cyflogau. Gallai cysylltiadau gwell rhwng adroddiadau cyllid a pherfformiad roi'r sicrwydd angenrheidiol ar effaith cyllid ar berfformiad ac i'r gwrthwyneb.
- mae'n anodd gweld symudiad yn y gyllideb ar gyfer y cynllun cyfalaf, strategol a dewisol. Nid oes llawer o naratif ar gynnydd y cynlluniau cyfalaf ac eithrio papur ar wahân ar ddilyniannau genomig, a gyflwynwyd i gyfarfod diweddar o'r bwrdd.
- nid yw risgiau rhag llwyddo i fantoli'r gyllideb wedi cael eu crynhoi a'u meintioli'n rheolaidd gyda dim neu fawr ddim gwybodaeth am gamau cywirol.

38 Yn 2015-16, canfu strategaeth gyllideb yr Ymddiriedolaeth gyfanswm o £1.12 miliwn i'w ail-fuddsoddi mewn rhaglenni gwella iechyd yn gysylltiedig â blynyddoedd cynnar, llesiant meddyliol, gordewdra a rhoi'r gorau i ysmygu. Ni

chafodd llawer o wybodaeth ar gynnydd yr ailfuddsoddiad ei adrodd i'r Bwrdd felly buom yn edrych sut oedd yr Ymddiriedolaeth yn monitro ac yn adrodd cyflawniadau ar lefel weithredol. Canfuwyd:

- fod y broses ar gyfer ail-fuddsoddi'r cyllid y tu allan i weithdrefn sefydledig yr Ymddiriedolaeth ar gyfer (ail)fuddsoddi, hynny yw, nid oedd deiliaid cyllidebau wedi gwneud cais am fuddsoddiad nac wedi cyflwyno achos busnes. Roedd adolygiad Trawsnewid Gwella Iechyd yng Nghymru wedi nodi nifer o raglenni neu wasanaethau y dylid eu hatal o ganlyniad i dystiolaeth annigonol o effaith ac effeithiolrwydd. Roedd y Bwrdd wedi cytuno y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ail-fuddsoddi mewn rhaglenni gwella iechyd newydd.
- na chadarnhawyd y cynllun ail-fuddsoddi tan fis 4, ac ar yr adeg honno bu'n rhaid i'r tîm Cyllid ail-fantoli cyllideb y gyfarwyddiaeth. Er bod yr amcanion a'r canlyniadau ar gyfer y cyllid ail-fuddsoddi'n hysbys, nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ar y costau manwl.
- fod gwybodaeth a roddwyd gan y gyfarwyddiaeth yn dangos bod cyllid ail-fuddsoddi wedi'i ddefnyddio i recriwtio staff i ddatblygu ac arwain rhaglenni gwaith newydd. Roedd gan y gronfa ail-fuddsoddi hefyd darged arbedion.
- oedi cyn cwblhau'r cynllun ail-fuddsoddi gyda gwybodaeth fanwl am gostau wedi arwain at oedi cyn recriwtio staff. O ganlyniad, roedd tanwariant yng nghyllideb y gyfarwyddiaeth ar ddiwedd Mawrth 2016, a oedd yn cyfateb ag adroddiadau ariannol i'r Bwrdd.

39 Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus bod oedi cyn cadarnhau cynlluniau buddsoddi'n llai tebygol o ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r tîm Cyllid yn bwriadu datblygu gwybodaeth (ail)fuddsoddi a ddarperir gan gyfarwyddiaethau i'w gwneud yn haws i fonitro ac i adrodd ar gynnydd ac i gymryd camau priodol i ail-fantoli cyllidebau fesul prosiect. Yn achos datblygiadau gwasanaeth newydd lle cafwyd buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, fel yr hyb gofal sylfaenol a dilyniannu genomig, mae cynlluniau gweithredu ar wahân ar waith.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni balans ariannol yn gyson ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2016-17

40 Mae gan yr Ymddiriedolaeth enw da am gyflawni balans ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyddo'n gyson i gynhyrchu gwargedion bychain bob blwyddyn, yn ogystal â bod mewn sefyllfa i roi arian yn ôl yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Yn 2015-16, roedd gwarged yr Ymddiriedolaeth yn £17,000 ar ôl broceriaeth arfaethedig o £300,000. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017. Mae'r ddyletswydd ariannol flynyddol wedi cael ei dirymu a daw'r ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn ddyletswydd tair blynedd gyda'r asesiad cyntaf o'r ddyletswydd hon yn digwydd yn 2016-17.

41 Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyddo'n gyson i wneud arbedion ac yn 2015-16 llwyddwyd i arbed cyfanswm o £2.5 miliwn. Ar ddiwedd mis Hydref 2016, roedd

ffigurau ariannol yr Ymddiriedolaeth i Lywodraeth Cymru yn dangos ei bod wedi cyflawni 50% o'r £1.8 miliwn o arbedion a nodwyd yn strategaeth y gyllideb, yn unol â chynllun yr Ymddiriedolaeth.

## Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu corfforaethol da'n gadarn ar y cyfan ac maent yn parhau i aeddfedu

42 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi edrych ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig ac i adrodd ar gyflawni'r cynllun, a'i dull o ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Rydym hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaethpwyd i roi sylw i argymhellion asesiad strwythuredig blaenorol a materion gwella. Amlinellir ein canfyddiadau isod.

### Mae'r trefniadau ar gyfer gwaith cynllunio strategol a gweithredol yn gweithio'n dda, ac er bod y trefniadau ar gyfer monitro perfformiad yn foddhaol, mae trefniadau adrodd y bwrdd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig angen eu datblygu ymhellach

43 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull yr Ymddiriedolaeth o fynd ati i gynllunio'n strategol[3], monitro ac adrodd ar gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynnydd a wnaethpwyd i roi sylw i argymhellion blaenorol a oedd yn gysylltiedig ag adrodd strategol. Amlinellir ein prif ganfyddiadau isod.

44 Yn llynedd, adroddwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau trefniadau i gael dull mwy integredig ac o'r gwaelod i fyny o gynllunio a'i bod ar y trywydd i ddiweddaru'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar amser. Cafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016 yr Ymddiriedolaeth ei ddatblygu o fewn yr amserlen ofynnol gyda'r bwrdd yn craffu arno ac yn ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet am yr ail flwyddyn yn olynol, yn amodol ar nifer fach o amodau, a chytunodd yr Ymddiriedolaeth i'w derbyn.

45 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud defnydd da o fframwaith cynllunio'r GIG a chafwyd sicrwydd sylweddol mewn adolygiad gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol fod proses yr Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gweithio'n dda. Roedd bron pob un (12 allan o 13) o aelodau'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y sefydliad wedi gwella ei ddulliau cynllunio o ganlyniad i fframwaith cynllunio'r GIG.

[3] Nid yw gwaith archwilio wedi dyblygu gwaith craffu Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond mae wedi ystyried camau a gymerwyd gan gyrff y GIG mewn ymateb i unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun neu amodau ar gyfer cymeradwyo'r cynllun.

46 Yn 2015, ehangodd yr Ymddiriedolaeth ei gallu a’i chapasiti mewn nifer o swyddogaethau corfforaethol, ac yn gynharach eleni, cafodd y swyddogaeth cynllunio gorfforaethol ei chryfhau yn sgil penodi staff ychwanegol. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth hefyd ei bod yn cryfhau ei swyddogaethau rheoli busnes ar lefel cyfarwyddiaethau gyda chymorth cynllunio’n parhau i gael ei ddarparu gan bartneriaid cyllid a busnes gweithlu.

47 Mae trefniadau cynllunio’r Ymddiriedolaeth yn parhau i annog dull integredig o’r gwaelod i fyny tuag at ddatblygu’r cynllun tymor canolig integredig. Cafodd canllaw cynllunio ei ddiweddaru yn 2016-17 gyda rolau a chyfrifoldebau o’r llawr i’r bwrdd yn cael eu datgan yn glir. Mae swyddog gweithredol yn gyfrifol am arwain a datblygu cynllun ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, gan sicrhau cyfraniadau perthnasol gan bob rhan o’r sefydliad. Mae cyfarwyddiaethau’n datblygu’r cynlluniau gweithredu manwl i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol perthnasol gan ddefnyddio templedi i sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau.

48 Mae’r canllaw yn cynnwys elfennau allweddol neu ofynion y mae’n rhaid i gynlluniau roi sylw iddynt. Mae hefyd yn cynnwys y disgwyliad y bydd y cyfarwyddwr gweithredol sy’n cymryd cyfrifoldeb am arwain ar flaenoriaethau unigol yn ymgysylltu â phartneriaid / rhan ddeiliaid mewnol ac allanol pan fyddant yn datblygu cynlluniau. Canfu ein harolwg o aelodau’r bwrdd fod:

- Bron pob un (11 allan o 13) o aelodau’r bwrdd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y sefydliad yn ymgysylltu’n effeithiol â staff ar y newidiadau strategol mawr a amlinellwyd yn y cynllun tymor canolig integredig. Roedd y staff y buom yn siarad â hwy fel rhan o’n gwaith archwilio’n bositif ynglŷn â digwyddiad staff yr Ymddiriedolaeth, Mission Possible.
- Y rhan fwyaf (10 allan o 13) o aelodau’r bwrdd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y sefydliad yn ymgysylltu’n effeithiol â staff clinigol ar y newidiadau strategol mawr a amlinellwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Y rhan fwyaf (9 allan o 13) o aelodau’r bwrdd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y sefydliad yn ymgysylltu’n effeithiol â phartneriaid statudol a thrydydd sector ar y newidiadau strategol mawr a amlinellwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

49 Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd amserlen yr Ymddiriedolaeth ar gyfer diweddaru’r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar amser a dylai cael ei gyflwyno i’r Bwrdd i gael ei gymeradwyo ganddo ym mis Ionawr 2017.

50 Mae cyfrifoldeb am gyflawni’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yng ngofal cyfarwyddwyr is-adrannol ac uwch reolwyr eraill gyda’r uwch reolwyr hyn yn atebol i’r tîm rheoli gweithredol. Roedd pob un o aelodau’r bwrdd a ymatebodd i’n harolwg yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y rolau a’r cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni amcanion a chamau allweddol o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn eglur.

51 Nid yw’r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd ar y dangosyddion allweddol ar gyfer gwasanaeth, ansawdd ac adnoddau a amlinellwyd yn y Cynllun

Tymor Canolig Integredig a'r cynllun gweithredol blynyddol[4] wedi newid rhyw lawer o'r llynedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig bod angen gwaith i ddatblygu trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd ymhellach, gan gynnwys mireinio'r adroddiadau misol i'r Bwrdd.

52 Y llynedd, roeddem wedi dweud bod angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y dylai grynhoi cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Roedd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016 yn amlinellu'r prif gyflawniadau yn erbyn y blaenoriaethau strategol yn ystod 2015 ond mae'n anodd cysylltu'r cyflawniadau â'r cerrig milltir a'r gweithredoedd penodol sy'n sail i amcanion strategol unigol. Yn 2015, gwnaethom ddau argymhelliad yn gysylltiedig ag adrodd yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r cynllun gweithredol blynyddol, ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi sylw iddo'n rhannol. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio'r cynnydd a wnaethpwyd gyda'r ddau argymhelliad dan sylw.

[4] Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r pwyntiau gweithredu i gyflawni pob blaenoriaeth a dyheadau strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystod 2016-17.

Arddangosyn 2: Cynnydd ar argymhellion 2015 yn gysylltiedig ag adrodd strategol

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A12015<br>Nid oedd cynllun gweithredol 2015-16 yn nodi'n eglur y camau a ddygwyd ymlaen o 2014-15. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried crynhoi cynnydd cyffredinol yn erbyn y camau a nodwyd yn y cynllun gweithredol blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn a datgan yn eglur y camau hynny a ddygwyd ymlaen a'r trefniadau ar gyfer parhau i fonitro ac adrodd. | Rhoddwyd sylw rhannol i'r argymhelliad.<br><br>Mae'r adroddiad perfformiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2016 yn amlinellu nifer o gamau a gwblhawyd erbyn diwedd mis Mawrth a'r nifer i'w dwyn ymlaen. Nid yw'r adroddiad perfformiad yn dangos pa gamau a ddygwyd ymlaen. Fodd bynnag, mae'r camau a ddygwyd ymlaen wedi'u nodi'n eglur yn adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn y cyfarwyddiaethau, gyda chyfarwyddiaethau'n gyfrifol am gyflawni a monitro'r camau.<br><br>Dywed fframwaith cyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth y bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredol yn cael ei adrodd yn chwarterol gan ddefnyddio sgoriau coch, oren, gwyrdd (RAG) ynghyd ag adroddiadau eithrio. Ni chafodd cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ei adrodd i'r Bwrdd yn ystod 2016.<br><br>Fodd bynnag, mae'r adroddiadau perfformiad misol a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn amlinellu'n eglur y newidiadau arfaethedig i gamau a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredol 2016, y rhesymau dros y newidiadau arfaethedig ac a yw'r newidiadau wedi'u cymeradwyo.<br><br>Mae Canllaw Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-2020 yn nodi'r disgwyliad y dylai byrddau gael asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig mewn sesiwn gyhoeddus o leiaf ddwywaith y flwyddyn. |

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| A2 2015<br>Nid yw pob dangosydd a amlinellir yn fframwaith cyflawni’r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn cael ei adrodd i’r Bwrdd. Fel rhan o’r broses o ddiweddaru adrodd ar berfformiad a threfniadau rheoli, bu’r Ymddiriedolaeth yn adolygu’r dangosyddion perfformiad presennol a datblygwyd cynigion diwygiedig ar gyfer y dangosyddion hynny a ddylai gael eu cynnwys mewn adroddiadau perfformiad misol yn y dyfodol. Dylai’r Ymddiriedolaeth:<br>• ddiweddaru’r fframwaith cyflawni sydd wedi’i gynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2016-17 i adlewyrchu’r newidiadau hyn, yn ogystal ag amlinellu’r dangosyddion a fydd yn cael eu hadrodd i’r Bwrdd; ac<br>• ystyried sut y bydd yn y diwedd yn crynhoi ac yn adrodd ar gynnydd cyffredinol tuag at gyflawni’r cerrig milltir a geir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | Rhoddwyd sylw rhannol i’r argymhelliad; mae gwaith yn mynd ymlaen i fireinio’r adroddiad perfformiad:<br>• fel yn 2015, mae’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys fframwaith cyflawni manwl sy’n disgrifio dangosyddion gwasanaeth, ansawdd ac adnoddau allweddol. Mae adroddiadau perfformiad yn cynnwys dangosfwrdd ond eto nid yw’r holl ddangosyddion wedi’u rhestru nac ychwaith y rheswm am eu hepgor.<br>• mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016 yn amlinellu cyflawniadau yn erbyn blaenoriaethau strategol ond mae’n anodd cysylltu’r rhain â cherrig milltir a chamau penodol sy’n sail i amcanion strategol penodol. Fel rhan o’r gwaith i fireinio adrodd ar berfformiad ac adrodd yn erbyn cyflawni’r Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae angen i’r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall helpu’r darllenydd i olrhain cyflawniadau cerrig milltir a chamau gweithredu. |

53 Ar ddiwedd cyfarfod diweddar o’r bwrdd, gwnaethpwyd sylwadau am faint o wybodaeth a gyflwynwyd i’r Bwrdd. Roedd aelodau’r Bwrdd yn cydnabod na chafwyd trafodaethau manwl ar yr wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer craffu a sicrwydd ers peth amser. Canfu ein harolwg o aelodau’r bwrdd fod:

- mwy na hanner (8 allan o 13) aelodau’r bwrdd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y bwrdd a phwyllgorau perthnasol yn neilltuo digon o amser i graffu’n effeithiol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Roedd dau aelod o’r bwrdd yn anghytuno
- roedd y rhan fwyaf o aelodau’r bwrdd (11 allan o 13) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf fod y Bwrdd yn cael gwybodaeth briodol i’w helpu i graffu’n effeithiol ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

## Mae’r Bwrdd wedi rhoi sicrwydd bod ei ofynion sicrwydd a’i strwythurau llywodraethu’n gwella craffu ar risgiau strategol

54 Mae’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull yr Ymddiriedolaeth o fapio sicrwydd a datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd, effeithiolrwydd y bwrdd a’i strwythurau llywodraethu. Amlinellir ein prif ganfyddiadau isod.

## Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn awr ar waith, ac mae gwaith i weithredu'r fframwaith rheoli risg yn mynd yn ei flaen

55 Yn 2015, roeddem wedi dweud bod yr Ymddiriedolaeth yn trawsnewid ei threfniadau rheoli risg ond y byddai peth amser cyn y byddai'r trefniadau hyn wedi ymwreiddio ac yn cael eu hadlewyrchu mewn fframwaith sicrwydd mwy dynamig i'r bwrdd. Cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth ei gwaith i adeiladu'r fframwaith sicrwydd newydd ac mae'n awr yn ymgorffori'r risgiau strategol a nodwyd gan aelodau'r bwrdd. Cafodd fframwaith sicrwydd y bwrdd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar ôl i aelodau'r bwrdd ofyn am sicrwydd bod y mesurau rheoli'n rhai cadarn a bod y ffynonellau sicrwydd yn gynhwysfawr. Mae aelodau'r bwrdd yn hyderus bod y fformat yn un hawdd i'w ddeall. Mae trefniadau effeithiol ar waith i ddiweddaru fframwaith sicrwydd y bwrdd i helpu i sicrhau craffu effeithiol ac amserol. Nid yw'r Bwrdd eto wedi datgan ei awydd risg ond mae cynlluniau ar waith i ddechrau trafod fel rhan o sesiynau datblygiad y bwrdd.

56 Canfu ein harolwg o aelodau'r bwrdd fod aelodau'r bwrdd yn fodlon ar y cyfan â'r trefniadau ar gyfer sicrwydd y bwrdd, yn benodol:

- roedd y rhan fwyaf o aelodau'r bwrdd (10 allan o 13) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad wedi ymdrechu'n galed i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn agored a gonest;
- roeddent i gyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cymryd rhan yn natblygiad fframwaith sicrwydd y bwrdd ac yn yr adolygiad ohono sydd ar waith;
- roedd y rhan fwyaf (11 allan o 13) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod fframwaith sicrwydd y bwrdd yn alluogwr sy'n eu helpu i gyflawni amcanion corfforaethol; ac
- roedd dros hanner (8 allan o 13) yn cytuno bod y sefydliad y llwyddo'n effeithiol i ganfod y sicrwydd sydd ei angen arno i sicrhau ei fod yn cyflawni amcanion strategol.

57 Buom yn edrych ar ffordd yr Ymddiriedolaeth o ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd yn erbyn yr egwyddorion a geir yng nghanllaw Trysorlys EM[5] a sut yr oedd hyn yn cymharu â'r dull a defnyddir gan gyrff eraill y GIG yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymharu'n dda â'r sefydliadau hynny sydd wedi mapio sicrwydd eu bwrdd, yn benodol:

- mae eglurhad cymharol dda wedi'i roi o'r bygythiad i gyflawni'r amcan, y mesurau rheoli gofynnol ac ystod o gamau sicrwydd;
- mae bylchau mewn sicrwydd wedi'u nodi er ei bod yn ymddangos bod rhai'n rhoi pwyslais ar yr ochr weithredol;
- mae camau wedi'u hamlinellu gyda chynnydd yn erbyn camau wedi'i nodi;
- mae cyfrifoldeb am reoli risg a throsolwg ar sicrwydd wedi'u hamlinellu'n glir gyda phwyllgorau'r bwrdd wedi'u haseinio'n eglur; ac

[5] Trysorlys EM, Assurance Frameworks, 2012

- mae ffiniau clir wedi'u pennu rhwng fframwaith sicrwydd y bwrdd a'r gofrestr risg gorfforaethol.

58 Mae'r risgiau strategol gofnodir yn fframwaith sicrwydd y bwrdd wedi'u cysylltu â'r blaenoriaethau trwy gyfeirnod yn unig sy'n ei gwneud yn anodd i'r darllenydd farnu a yw camau a mesurau rheoli a sicrwydd yn briodol i'r risgiau. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gallai wneud y cysylltiad yn fwy amlwg, yn hytrach na thrwy ddefnyddio cyfeirnod yn unig, rhwng blaenoriaethau strategol a'r risgiau strategol.

59 Mae ein dadansoddiad cymharol wedi edrych hefyd ar hygyrchedd ac eglurder yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y sefydliad fel y sail i ddatblygu fframwaith sicrwydd. Ar draws Cymru, mae amrywiad sylweddol yn y ffordd y mae sefydliadau'n cyflwyno amcanion, gydag amcanion yn aml yn cael eu disgrifio mewn ffyrdd sy'n ei gwneud yn fwy anodd i benderfynu pa sicrwydd sydd ei angen i liniaru'r risgiau rhag eu cyflawni. Mae blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth wedi gosod y cyd-destun ac maent yn fframio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'n bositif i nodi bod yr Ymddiriedolaeth yn ystyried sut mae ei hamcanion strategol yn alinio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r amcanion strategol sy'n sail i'r blaenoriaethau'n gymharol eglur ac yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau, a dylai hynny helpu i ganfod y risgiau strategol i amcanion ac i ddatblygu sicrwydd sy'n rhoi pwyslais ar allbynnau ac effaith.

60 Mae gwaith i ymwreiddio'r fframwaith rheoli risg ar lefel weithredol yn parhau. Cafodd hyfforddiant i helpu i'w roi ar waith ei ohirio tan ddechrau 2017 fel y gallai'r prif swyddog risiau ddiwygio'r rhaglen hyfforddi ar ôl cael adborth staff. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd cofrestrau risg cadarn y cyfarwyddiaethau ar waith erbyn diwedd Mawrth 2017, ac y byddant yn cael eu diweddaru'n fisol fel fframwaith sicrwydd y bwrdd a'r gofrestr risg gorfforaethol. Ar yr adeg honno, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ailasesu aeddfedrwydd sefydliadol o ran rheoli risg ac yna'n flynyddol ar ôl hynny.

### Mae newidiadau i strwythurau pwyllgorau'n gwella craffu ar risgiau strategol ac mae cynlluniau ar waith i wella ymhellach effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau

61 Y llynedd, roeddem wedi adrodd ar yr oedi cyn penodi cyfarwyddwr anweithredol ar gyfer llywodraeth leol a bod perygl i ofynion olyniaeth arfaethedig roi pwysau ar yr amser a roddir gan gyfarwyddwyr anweithredol presennol a chyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer craffu a sicrwydd. Mae newidiadau i offerynnau statudol yn 2016 yn golygu bod swydd cyfarwyddwr anweithredol sydd â phrofiad o lywodraeth leol a fu'n wag am gyfnod hir bellach wedi'i llenwi. Mae gofynion ar gyfer olyniaeth yn parhau ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus i gyflwyno amserlen recriwtio i sicrhau sefydlogrwydd yn ystod y newid.

62 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr amser cynyddol a neilltuir gan gyfarwyddwyr anweithredol i gyflawni gofynion statudol y Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i sicrhau bod cyfarwyddwyr anweithredol yn gwneud gwaith sy'n ychwanegu gwerth tra'n sicrhau llywodraethu sefydliadol da. Canfu ein harolwg o aelodau'r bwrdd:

- ychydig o aelodau'r bwrdd (4 allan o 13) oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod nifer digonol o aelodau'r bwrdd yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith craffu; ac
- roedd llai na'u hanner (6 allan o 13) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y rhaglen ddatblygu'n helpu â sgiliau a hyder i ddelio â sicrwydd yn effeithiol ac i graffu ar gyflawniad yn erbyn amcanion.

63 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo o hyd i ddatblygu ei effeithiolrwydd, er ei bod yn ddiddorol nodi mai dim ond ychydig o aelodau'r bwrdd (3 allan o 13) a ymatebodd i'n harolwg a oedd yn cytuno bod y sefydliad yn mabwysiadu dull effeithiol i asesu effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae penodiadau diweddar i rolau llywodraethu a rheoli risg wedi rhoi hwb yr oedd angen mawr amdano i ddiwygio strwythur y pwyllgorau ac i helpu proses sicrwydd y bwrdd. Hefyd, mae cynlluniau gwaith blynyddol y bwrdd a'r pwyllgor wedi cael eu hadolygu ac mae rhaglen o asesiadau pwyllgorau'n cael ei chynnal, gan ddechrau gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

64 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth raglen gynefino ffurfiol ac nid oes llawer yn cael ei gynnig yn genedlaethol i helpu aelodau newydd byrddau i gynefino. Yn hytrach, mae'r Ymddiriedolaeth yn teilwra cynefino ar lefel unigol. Yn y cyfamser, mae rhaglen fwy ffurfiol o sesiynau datblygiad y bwrdd yn cael ei chynllunio i sicrhau bod gan holl aelodau'r bwrdd ddigon o wybodaeth am y themâu a'r heriau sy'n dod i'r amlwg. Daw hyn yn gynyddol bwysig wrth i aelodau anweithredol newydd ymuno â'r sefydliad.

65 Roedd pob aelod o'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn adolygu ei strwythurau llywodraethu'n effeithiol a'i fod yn eu haddasu i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sydd bwysicaf i lwyddiant. Hefyd, bu'r Ymddiriedolaeth yn rhagweithiol wrth asesu effeithiolrwydd sefydliadol ehangach a dysgu trwy gomisiynu nifer o adolygiadau allanol gan gymheiriaid eleni.

66 Mae'r trefniadau newydd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin, yn sicrhau bod cyfrifoldebau'r pwyllgor am drosolwg a chraffu wedi'u halinio â blaenoriaethau strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig a risgiau i'w cyflawni. Y prif heriau yw:

- diddymu'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth gyda'i gylch gwaith yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella;
- sefydlu'r Pwyllgor Pobl a Datblygiad Sefydliadol i sicrhau bod pwyslais priodol ar y gweithlu, yn ogystal â datblygiad sefydliadol; mae'r pwyllgor hwn yn disodli'r Pwyllgor Datblygu'r Sefydliad; a'r
- enwau newydd ar gyfer y Pwyllgorau Archwilio ac Ansawdd a Diogelwch i gydnabod eu rolau eu hunain mewn llywodraethau a monitro gwelliant a

chanlyniadau poblogaethau; yr enwau yw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant.

67 Mae cylch gorchwyl a threfniadau gweithredu safonol yn disgrifio'r darpariaethau sy'n gyffredin i bob pwyllgor a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r rhai ar gyfer pwyllgorau unigol. Mae trefniadau i drosglwyddo busnes y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau presennol ar waith ac maent yn cael eu gweithredu.

68 Mae cynrychiolwyr ochr y staff wedi bod yn mynychu ac yn cyfrannu'n rheolaidd at gyfarfodydd y bwrdd er 2014. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awr yn gweithio â chynrychiolwyr ochr y staff i hwyluso eu presenoldeb yng nghyfarfodydd pob pwyllgor, heblaw am y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth.

69 Mae'r bwrdd yn dryloyw yn ei fusnes ac wrth adrodd i'r cyhoedd, ac mae wedi cydymffurfio â'i ofynion adrodd blynyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi papurau pwyllgorau ar ei gwefan yn gyson er 2012, er nad yw hynny wedi bod yn digwydd tan ar ôl i'r cyfarfodydd gael eu cynnal. Mae'n awr yn gweithio i sicrhau bod papurau pwyllgorau ar gael ymlaen llaw ac mae hynny'n adlewyrchu bwriad i agor cyfarfodydd pwyllgorau i'r cyhoedd. Fel rhan o waith archwilio eleni, rydym wedi asesu i ba raddau y mae cyrff y GIG yn cydymffurfio â chyhoeddi gwybodaeth ragnodedig ar eu gwefannau.[6] Mae'r dogfennau gofynnol a'r rhai sy'n cael eu hargymell, ac eithrio'r cynllun ymgysylltu â dinasyddion (neu ddogfen debyg) ar gael ac yn hygyrch. Nid yw'r holl ddogfennau'n gyfoes ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i'w diwygio. Mae'r Rheolau Sefydlog, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2014, yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau i drefniadau pwyllgorau ac mae diwygiadau i'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau'n parhau.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da i gryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer ansawdd ac mae trefniadau ar gyfer olrhain cynnydd i roi sylw i argymhellion yn foddhaol

70 Roedd ein hasesiad strwythuredig yn 2016 yn edrych ar gynnydd a wnaethpwyd gan yr Ymddiriedolaeth i gryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer ansawdd ac i roi sylw i argymhellion a wnaethpwyd gennym y llynedd.

### Mae'r fframwaith ansawdd ac effaith ar waith ac mae'r gwaith o'i weithredu wedi dechrau

71 Yn 2015, adroddwyd gennym fod datblygiad fframwaith sicrwydd ansawdd a phroses gwella ansawdd wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Mae sicrwydd ansawdd a gwella ansawdd yn parhau'n rhan allweddol o gynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth. Dechreuodd y swyddog arweiniol ar gyfer ansawdd yn ei swydd yn 2016 gan sicrhau bod y gallu yno i gyflymu datblygiad y fframwaith ansawdd.

72 Cafodd y Fframwaith Ansawdd ac Effaith ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn ddiweddar yn dilyn cydweithio ac ymgynghori â staff. Mae'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith yn cyflwyno uchelgais yr Ymddiriedolaeth i fod yn sefydliad sy'n rhoi

[6] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033

pwyslais ar ansawdd ac effaith sy'n ymdrechu i wneud gwelliannau parhaus. Mae'r chwe amcan a geir yn y Fframwaith Ansawdd ac Effaith yn egluro ansawdd ac effaith, y camau y mae angen eu cymryd a'r canlyniadau disgwyliedig, a sut y bydd y canlyniadau hyn yn cael eu hasesu.

73 Bydd y grŵp rheoli ansawdd, sy'n atebol i'r tîm rheolwyr gweithredol, yn goruchwylio'r broses o weithredu'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith. Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd cytundeb wedi'i sicrhau ar y cynllun gweithredu manwl ar gyfer y Fframwaith Ansawdd ac Effaith gyda gwaith i ddatblygu dangosyddion ansawdd ac effaith penodol yn cael ei weld fel blaenoriaeth.

74 Mae ymarfer da sy'n ategu'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith hefyd yn cael ei ddatblygu gyda chynlluniau i ddatblygu hyb ansawdd yn rhithiol dod yn eu blaen. Mae'r hyb ansawdd yn fforwm rhithiol lle gall staff y sefydliad ddod ynghyd i ddysgu ac i rannu dulliau gwella ansawdd, neu i werthuso ansawdd ac effaith.

75 Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth ei gynllun archwilio clinigol blynyddol cyntaf[7] y llynedd, ac ar adeg ein gwaith archwilio, roedd yn asesu maint y cynnydd. Mae'r system ar gyfer monitro cynnydd yn defnyddio llawer o adnoddau ac mae'n dibynnu ar gysylltu â chyfarwyddiaethau i ganfod pa archwiliadau sydd wedi'u cwblhau a'r cynnydd a wnaethpwyd ar y gweddill. Mae'r grŵp rheoli ansawdd ar hyn o bryd yn gyfrifol am fonitro cynnydd o ran cyflawni'r cynllun ond mae cylch gorchwyl y grŵp yn awgrymu eu bod yn adolygu'r cynllun unwaith y flwyddyn. Mae cynlluniau i gryfhau trosolwg gan y grŵp, yn ogystal â'r trefniadau i rannu dysgu, yn cael eu rhoi ar waith. Disgwylir y bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn cael adroddiad ar gynnydd cyn diwedd mis Mawrth 2017 ynghyd â'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu cynllun archwilio ansawdd a chlinigol 2017-18.

### Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod storïau'n dod yn nodwedd reolaidd o gyfarfodydd y bwrdd, a bydd yr adroddiad profiad y defnyddwyr blynyddol cyntaf yn cael ei gyhoeddi cyn hir

76 Y llynedd, adroddwyd gennym fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ac i ofyn am adborth yn parhau i esblygu. Rhoddwyd y gorau i gynlluniau'r Ymddiriedolaeth i sefydlu fforwm defnyddwyr gwasanaeth Cymru gyfan yn dilyn adborth gan fudiadau trydydd sector a defnyddwyr gwasanaeth, a oedd yn argymell defnyddio grwpiau sy'n bodoli eisoes a chysylltu â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

77 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Yn gynnar yn 2016, comisiynodd asesiad gwaelodlin o'i threfniadau ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cael yr adroddiad drafft ond nid oedd wedi cael cyfle ar y pryd i drafod y canfyddiadau ag awduron yr adroddiad ac i gytuno sut y bydd yn ymateb. Yn y cyfamser, canfu ein harolwg o aelodau'r bwrdd

[7] Yn y dyfodol Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol fydd enw'r cynllun.

nad oedd llawer o aelodau'r bwrdd (3 allan o 13) yn cytuno bod y sefydliad yn ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth ar y newidiadau strategol mawr sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig.

78 Mae gwaith i ganfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddod â storïau i sylw'r Bwrdd yn parhau er mwyn sicrhau bod storïau'n adlewyrchu amrywiaeth gwaith yr Ymddiriedolaeth â defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau lleol a phoblogaethau cyfan. Mae storïau'n rhan o gynllun busnes y bwrdd am y flwyddyn sy'n dod, ac maent yn parhau i fod yn rhan reolaidd o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant.

79 Mewn cyfarfodydd diweddar o'r bwrdd, bu defnyddwyr mudiad trydydd sector yn cyflwyno storïau am effaith colli golwg ar eu hiechyd a'u llesiant. Arweiniodd y materion a godwyd gan y mudiad trydydd sector a'u ddefnyddwyr at ddadl ar y rôl y gallai'r Ymddiriedolaeth ei chwarae i gynorthwyo rhaglenni atal ac i ddylanwadu ar bolisïau'n lleol ac yn genedlaethol. Roedd aelodau'r Bwrdd o'r farn bod y storïau'n fuddiol ond roedd yn cydnabod bod angen mwy o amser i edrych ar y materion a godwyd er mwyn dangos sut y byddai'r Ymddiriedolaeth a'i gwasanaethau'n rhoi sylw i'r materion.

80 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld cyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth yn gynnar yn 2017, ynghyd â thaflen sy'n crynhoi'r adroddiad ar gyfer y cyhoedd. Ar ôl hynny bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai. Bydd yr adroddiad yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r tri chwestiwn craidd a godwyd o'r arolwg cenedlaethol o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â chwynion, canmoliaeth a gwersi a ddysgwyd. Cymerodd yr adroddiad a'r daflen fwy o amser na'r disgwyl i'w cwblhau oherwydd nad oes system ar hyn o bryd i gofnodi'r wybodaeth yn electronig mewn ffordd gyson. Yn hytrach, cafodd yr wybodaeth ei chodi o adroddiadau isadrannau a chyfarwyddiaethau.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wella ei phrosesau ar gyfer dysgu o ganlyniad i gwynion a digwyddiadau

81 Yn 2015, adroddwyd gennym fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer dysgu o ganlyniad i gwynion a digwyddiadau wedi parhau i wella. Ar yr adeg honno, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cydnabod ei bod yn anodd dangos weithiau bod dysgu wedi ymwreiddio a bod y ddolen ddysgu wedi cau. Cafodd archwiliad ôl-weithredol arfaethedig yr Ymddiriedolaeth o wersi a ddysgwyd yn sgil pryderon a hawliadau ei gwblhau'n gynharach eleni gyda'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ystod yr haf.

82 Canfu'r archwiliad fod dysgu gwersi'n digwydd gyda chamau'n cael eu cymryd i weithredu'r hyn a ddysgwyd. Nododd yr archwiliad nifer fechan o argymhellion i wella cadernid y broses o ddysgu o ganlyniad i ddigwyddiadau. Roedd tystiolaeth bod y camau a oedd yn deillio o'r archwiliad yn cael sylw. Roedd canfyddiadau'n cael eu rhannu â'r Panel Profiad y Defnyddwyr a Dysgu gyda gwersi a ddysgwyd yn cael eu coladu a'u rhannu bob chwarter. Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd

yr Ymddiriedolaeth wedi penderfynu pa grŵp rheoli a fyddai'n cadw trosolwg o'r cynnydd yn erbyn camau'r archwiliad.

83 Mae'r adolygiad blynyddol a gynhelir gan Gronfa Risg Cymru'n dangos gwelliant parhaus yn y ffordd y mae pryderon a hawliadau'n cael eu rheoli ynghyd â'r dysgu o ganlyniad i hynny, ac roedd yr Ymddiriedolaeth yn sgorio'n dda o'i gymharu â'r llynedd (82% a 77% yn y drefn honno). Nododd Cronfa Risg Cymru fod y sgôr yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd y dysgu hwnnw wedi ymwreiddio'n llawn eto ar draws y sefydliad ond bod ansawdd y gwaith a'r dystiolaeth o ran dysgu'n ymddangos yn fwy cadarn.

84 Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaethpwyd i roi sylw i argymhellion yn gysylltiedig â llywodraethu ansawdd a wnaethpwyd gennym y llynedd.

Arddangosyn 3: Cynnydd ar holl argymhellion eraill 2015

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A3 2015<br>Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod yn anodd dangos weithiau bod dysgu wedi ymwreiddio a bod y ddolen ddysgu wedi cau o gofio'r ddibyniaeth ar sefydliadau eraill i ymwreiddio camau cywiro. Dylai'r Ymddiriedolaeth:<br>• Ystyried ymgorffori'r gofynion i adrodd ar gynnydd yn erbyn camau cywiro sy'n deillio o gwynion a digwyddiadau fel rhan o gytundebau lefel gwasanaeth â'i ddarparwyr gwasanaethau; a<br>• chwblhau ei archwiliad ôl-weithredol ar ddysgu o ganlyniad i gwynion a digwyddiadau. | Mae camau i roi sylw i'r argymhelliad hwn ar y trywydd.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i sicrhau bod y gweithdrefnau i ymchwilio i bryderon a gwersi a ddysgwyd yn cael eu hamlinellu mewn cytundebau lefel gwasanaeth penodol. Mae tystiolaeth o gydweithio rhwng yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd i ddatblygu cynlluniau gwella yn dilyn ymchwiliadau i gwynion a digwyddiadau.<br>• Mae'r cam hwn wedi'i gwblhau; gweler paragraffau 82 a 83. |
| A4 2015<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod archwiliad clinigol yn chwarae rôl lawn mewn rhoi sicrwydd craffu llawn i'r bwrdd ar y cynllun archwilio clinigol a'r gwaith o'i gyflawni. | Mae camau i roi sylw i'r argymhelliad hwn ar y trywydd.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn mapio cynnydd yn erbyn cynllun archwilio clinigol 2015 gydag arddodiad i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi'i gynllunio cyn diwedd mis Mawrth 2017. Mae gwaith yn cael ei wneud i gryfhau trefniadau i fonitro cynnydd ac i rannu gwersi sy'n deillio o'r archwiliadau. |

85 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i roi sylw i argymhellion asesiad strwythurol 2015, buom hefyd yn edrych ar effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad. Mae cofnod tracio

yn dangos statws argymhellion (h.y. y nifer sydd wedi'u cwblhau, sydd ar waith neu sy'n hwyr), y camau sydd i'w gweithredu ac unrhyw ddiweddariadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried y cofnod tracio ym mhob cyfarfod, ac yn ei ddefnyddio i herio cadernid ymatebion y rheolwyr a chyflymder cynnydd.

86 Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi sylw hyd yma i'n hargymhellion i sicrhau bod y polisi diogelwch gwybodaeth yn ateb y galw (Arddangosyn 4). Yn sgil yr achosion lle'r amharwyd ar ddiogelwch yn sefydliadau'r GIG yn Lloegr, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei pholisïau a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth yn gyfoes ac yn effeithiol.

Arddangosyn 4: Cynnydd ar argymhelliad 2014

| Argymhelliad 2014 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A3 2014<br>Nid yw datblygiad disgwyliedig polisi diogelwch TG Cymru gyfan wedi digwydd ac mae polisi'r Ymddiriedolaeth yn bum mlwydd oed. Dylai'r Ymddiriedolaeth asesu a yw'r polisi'n dal i ateb y galw ac, os nad yw, naill ai ei ddiweddaru a'i ddiwygio neu ddatblygu polisi diogelwch gwybodaeth newydd ar unwaith. | Ni wnaethpwyd dim cynnydd.<br><br>Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi sylw eto i'r argymhelliad hwn. Yn sgil yr achosion lle'r amharwyd ar ddiogelwch yn sefydliadau'r GIG yn Lloegr, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei pholisïau a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth yn gyfoes ac yn effeithiol i atal digwyddiad o'r fath i systemau'r Ymddiriedolaeth. |

# Atodiad 1

## Canfyddiadau ein harolwg o aelodau byrddau

Gwahoddwyd 209 o aelodau bwrdd y saith bwrdd iechyd a thair Ymddiriedolaeth GIG i gymryd rhan mewn arolwg, a oedd yn gofyn i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o ddatganiadau am drefniadau i ddylunio a datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd a threfniadau ar gyfer trosolwg a chraffu ar gynllunio tymor canolig integredig. Ymatebodd gyfanswm o 119 aelodau bwrdd ledled Cymru (cyfradd ymateb o 57%). Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ymatebodd 13 o 18[8] aelod y bwrdd a wahoddwyd i gymryd rhan (72%). Dangosir dadansoddiad cymharol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r holl ymatebwyr yn y tablau isod.

### Adran 1 – Trefniadau ar waith i ddylunio a datblygu Fframwaith Sicrwydd i'r Bwrdd

Tabl 1.1: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'Mae'r sefydliad wedi disgrifio'n glir sut y bydd llwyddiant yn erbyn amcanion y sefydliad yn edrych'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 2 | 11 | – | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 25 | 67 | 5 | 3 | 1 | – | 118 |

[8] Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwahoddwyd yr unigolion canlynol i gymryd rhan yn ein harolwg: pob cyfarwyddwr anweithredol, cyfarwyddwyr gweithredol, cyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r tîm gweithredol ac sydd â gwahoddiad sefydlog i fynychu cyfarfodydd y bwrdd, Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadau dros dro sydd ar fin gadael.

Tabl 1.2: Mae’r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau’n cytuno â’r datganiad ‘Mae amcanion corfforaethol fy sefydliad yn cael eu disgrifio mewn ffordd ystyrlon sy’n galluogi’r Bwrdd a’i bwyllgorau i olrhain cynnydd dros amser.

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 2 | 11 | – | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 28 | 62 | 8 | 1 | 1 | – | 119 |

Tabl 1.3: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn effeithiol wrth ganfod y sicrwydd sydd ei angen arno i sicrhau bod ein hamcanion strategol yn cael eu cyflawni'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | – | 8 | 4 | 1 | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | – | 64 | 17 | 4 | 15 | – | 119 |

Tabl 1.4: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn adolygu ei strwythurau llywodraethu'n effeithiol ac yn eu haddasu i ganolbwyntio ar y meysydd sydd bwysicaf i sicrhau llwyddiant sefydliadol'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 3 | 9 | 1 | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 47 | 45 | 5 | 3 | – | – | 119 |

Tabl 1.5: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'Rwyf yn eglur ar ystod y camau y gall pwyllgorau ac is-bwyllgorau eu cymryd i reoli neu i uwchgyfeirio problemau'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 4 | 5 | 4 | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 45 | 44 | 8 | 2 | 1 | – | 119 |

Tabl 1.6: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae'r sefydliad yn ymgysylltu ag aelodau ei fwrdd o ran datblygu a pharhau i adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 3 | 10 | – | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 54 | 42 | 3 | 2 | – | – | 119 |

Tabl 1.7: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae rhaglen datblygiad y bwrdd yn helpu sgiliau a hyder aelodau'r bwrdd i ddelio'n effeithiol â sicrwydd a chraffu ar gyflawni yn erbyn amcanion'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 1 | 5 | 5 | 2 | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 23 | 53 | 19 | 5 | 1 | – | 119 |

Tabl 1.8: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae nifer digonol o aelodau'r bwrdd yn meddu ar y sgiliau i graffu'n effeithiol a yw risgiau'n cael eu rheoli'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 1 | 3 | 5 | 2 | 1 | 1 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 29 | 46 | 11 | 10 | 3 | 2 | 119 |

Tabl 1.9: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae'r sefydliad wedi ymdrechu'n galed i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n agored a gonest'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 6 | 4 | 2 | – | – | 1 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 62 | 33 | 4 | – | – | 1 | 118 |

Tabl 1.10: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae gan y sefydliad ddull effeithiol o asesu effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | – | 3 | 6 | 3 | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 23 | 51 | 19 | 6 | – | 1 | 119 |

Tabl 1.11: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae'r sefydliad yn defnyddio gwersi a ddysgwyd yn sgil hunan asesiadau ac adolygiadau allanol neu gan gymheiriaid i wella fframwaith sicrwydd y bwrdd'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 4 | 4 | 3 | 2 | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 33 | 51 | 10 | 5 | – | 1 | 118 |

Tabl 1.12: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r sefydliad wedi gweithredu'n amserol a phriodol mewn ymateb i adolygiadau allanol a chanfyddiadau arolygon'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 3 | 6 | 3 | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 41 | 48 | 8 | 1 | – | 3 | 118 |

Tabl 1.13: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn alluogwr sy'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion corfforaethol'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 2 | 9 | 2 | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 27 | 57 | 12 | 3 | 1 | – | 118 |

## Adran 2 – Trefniadau ar gyfer goruchwylio, craffu a helpu i gyflawni cynllunio integredig strategol a newid

Tabl 2.1: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'o ran Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, rwyf yn deall y buddiannau a fwriadwyd yn sgil symud i gynlluniau tymor canolig integredig tair blynedd (Fframwaith Cynllunio'r GIG)'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 9 | 3 | 1 | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 49 | 43 | 5 | 3 | 1 | – | 117 |

Tabl 2.2: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'Mae fy sefydliad wedi gwella ei ddull o gynllunio o ganlyniad i Fframwaith Cynllunio'r GIG'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 5 | 7 | – | – | – | 1 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 27 | 53 | 16 | 3 | – | 2 | 119 |

Tabl 2.3: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'Mae fy sefydliad wedi gwella ei ddarpariaeth gwasanaethau eisoes o ganlyniad i Fframwaith Cynllunio'r GIG'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 3 | 5 | 4 | – | – | 1 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 18 | 50 | 25 | 5 | – | 2 | 119 |

Tabl 2.4: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn debygol o wella darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol o ganlyniad i'r drefn gynllunio integredig'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 4 | 8 | 1 | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 27 | 59 | 14 | – | – | 1 | 118 |

Tabl 2.5: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae materion tymor byr (mewn blwyddyn) yn cyfrif am fwy o fusnes y Bwrdd na strategaeth a chynlluniau tymor canolig a hir'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | – | 5 | 6 | 2 | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 14 | 42 | 28 | 16 | – | 1 | 118 |

Tabl 2.6: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae'r sefydliad wedi meintioli'r buddiannau y mae'n eu disgwyl yn sgil y cynllun tymor canolig integredig cyfredol'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 1 | 7 | 3 | 1 | – | 1 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 10 | 59 | 20 | 9 | – | 2 | 119 |

Tabl 2.7: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae rolau a chyfrifoldebau eglur ar gyfer cyflawni'r amcanion a'r camau allweddol o fewn y cynlluniau tymor canolig integredig'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 5 | 8 | – | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 29 | 57 | 11 | 2 | – | 1 | 119 |

Tabl 2.8: Mae'r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau'n cytuno â'r datganiad 'mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn neilltuo digon o amser i graffu'n effeithiol ar y cynllun tymor canolig integredig'.

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 1 | 7 | 3 | 2 | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 19 | 55 | 17 | 9 | – | 1 | 119 |

Tabl 2.9: Mae’r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau’n cytuno â’r datganiad ‘mae’r Bwrdd yn cael gwybodaeth briodol i’w alluogi i graffu’n effeithiol ar gynnydd y cynllun tymor canolig integredig’.

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 3 | 8 | 2 | – | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 16 | 60 | 19 | 4 | – | 1 | 118 |

Tabl 2.10: Mae’r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau’n cytuno â’r datganiad ‘mae’r sefydliad yn ymgysylltu’n effeithiol â staff ar y newidiadau strategol pwysig sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig’.

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 4 | 7 | 1 | 1 | – | – | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 13 | 58 | 22 | 5 | – | 3 | 119 |

Tabl 2.11: Mae’r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau’n cytuno â’r datganiad ‘mae’r sefydliad yn ymgysylltu’n effeithiol â staff clinigol ar y newidiadau strategol pwysig sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig’.

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 2 | 8 | 1 | 1 | – | 1 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 15 | 58 | 19 | 3 | 1 | 3 | 119 |

Tabl 2.12: Mae’r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau’n cytuno â’r datganiad ‘mae’r sefydliad yn ymgysylltu’n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth ar y newidiadau strategol pwysig sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig’.

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | – | 3 | 5 | 3 | – | 2 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 3 | 43 | 36 | 12 | 3 | 4 | 119 |

Tabl 2.13: Mae’r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau’n cytuno â’r datganiad ‘mae’r sefydliad yn ymgysylltu’n effeithiol â phartneriaid statudol ac o’r trydydd sector ar y newidiadau strategol pwysig sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig’.

| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | 2 | 7 | 3 | – | – | 1 | 13 |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 16 | 54 | 21 | 7 | 1 | 2 | 119 |

Tabl 2.14: Mae’r tabl yn dangos i ba raddau roedd aelodau byrddau yn credu ‘bod gan y sefydliad enw da am gyflwyno newidiadau i wasanaethau sy’n arwain at welliannau cynaliadwy i’r gwasanaethau a ddarperir’.

| | Bob amser | Gan amlaf | Weithiau | Anaml | Byth | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru (n) | – | 7 | 5 | – | – | 1 | – |
| Aelodau bwrdd y GIG **(%)** | 3 | 51 | 42 | 3 | – | 1 | – |

# Atodiad 2

## Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion asesiad strwythuredig 2016

Bydd ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth yn cael ei fewnosod ar ôl i'r templed ymateb gael ei gwblhau. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol a gyhoeddir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

Arddangosyn 5: Ymateb y Rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Pan fydd arbedion yn dibynnu ar leihau neu dynnu cyllid i sefydliadau allanol yn ôl, dylai'r Ymddiriedolaeth drafod ei bwriadau â'r sefydliadau hynny sy'n cael arian cyn i'r arbedion hynny gael eu cyfanredu o fewn cyllidebau gwariant. | Cynlluniau ariannol cadarn ar lefel isadrannau.<br>Hyderus y gellir cyflawni'r arbedion.<br>Cyllidebau gwariant yn seiliedig ar arbedion real yn hytrach na rhai posibl. | Ydi | Yn rhannol | Nid yw hyn yn bosibl bob amser, ac mae rhai arbedion wedi'u cynnwys sy'n effaith diddymu cyllid ar ran o flwyddyn. Yn hytrach, dylai'r risg o ddadfuddsoddi gael ei nodi, a dylid llunio cynllun dadfuddsoddi sy'n cynnwys amserlenni ar gyfer negodiadau os oes angen. Os yw'r risg yn uchel, yna bydd cynlluniau arbed amgen yn cael eu nodi cyn pennu'r cyllidebau terfynol sy'n lleihau'r risg hon. | Mawrth 2017 | Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod natur y risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbed unigol yn cael eu cofnodi ar gyfer pob cynllun. | Wedi gwella dibynadwyedd yr asesiad risg o gynlluniau arbed. | Ydy | Do | Derbyniwyd, ac roedd yn weithredol ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynlluniau arbed yng nghyllideb 2016/17. | Eisoes ar waith | Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Cyllid |
| A3 | Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cynlluniau ail-fuddsoddi yn cynnwys digon o fanylion am gostau ac amserlenni mor gynnar â phosibl yn y broses o bennu'r gyllideb. | Mae cyllidebau cyfarwyddiaethau ac isadrannau'n wedi'u seilio ar wybodaeth gadarn.<br>Cytunwyd ar gyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.<br>Perfformiad yn cael ei fonitro yn erbyn y cynllun, ac mae camau amserol a chywiro wedi'u cymryd.<br>Y gyllideb wedi'i gwario i gyd gyda llai o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn. | Ydy | Do | Derbyniwyd | Mawrth 2017 | Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/nadd o) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu fformat a chynnwys adroddiadau cyllid y bwrdd er mwyn:<br>• sicrhau bod yr wybodaeth yn galluogi aelodau'r bwrdd i olrhain perfformiad yn erbyn y cynllun ariannol, gan gynnwys arbedion a buddsoddiadau;<br>• rhoi sicrwydd nad yw ansawdd, diogelwch a chyflawniad gwasanaethau a rhaglenni gwaith yn cael eu heffeithio gan berfformiad ariannol; a<br>• sicrhau cysylltiadau gwell â'r fframwaith cyflawni perfformiad. | • Gellir olrhain perfformiad ariannol yn rhwydd yn erbyn strategaeth y gyllideb.<br>• Mwy o dryloywder o ran perfformiad cynlluniau cynilo ac (ail)fuddsoddi.<br>• Sicrwydd nad yw perfformiad ariannol yn cael effaith andwyol ar ansawdd a diogelwch a darpariaeth gwasanaethau.<br>• Integreiddio gwell rhwng adrodd ar gyllid a pherfformiad. | Ydy | Do | Derbyniwyd, a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn ystod y misoedd nesaf i ymgynghori ag aelodau'r bwrdd ar fformat adroddiadau cyllid a pherfformiad. | Mawrth 2017 | Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut i wneud y cysylltiad yn un mwy amlwg, yn hytrach na thrwy gyfeirnod yn unig, rhwng blaenoriaethau strategol a'r risgiau strategol a gofnodwyd yn fframwaith sicrwydd y bwrdd, er enghraifft, trwy atodi rhestr o'r blaenoriaethau. | Galluogi darllenwyr i farnu a yw camau, mesurau rheoli a sicrwydd yn briodol ar gyfer y risgiau strategol a gofnodwyd yn fframwaith sicrwydd y bwrdd. | Nac ydy | Do | Bydd y rhestr o flaenoriaethau strategol yn cael eu hatodi at fframwaith sicrwydd y bwrdd. | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Prif Swyddog Risgiau |
| A6 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gytuno pa grŵp rheoli a fydd yn cadw trosolwg dros y camau a argymhellwyd sy'n deillio o'r 'Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd o Ddigwyddiadau, Pryderon a Hawliadau' nes bydd pob cam wedi cael sylw a bod y newidiadau wedi cael eu cynnal. | Camau wedi'u gweithredu a systemau a phrosesau'n gweithio'n ôl y bwriad.<br>Sicrwydd bod dysgu'n cael ei rannu a'i fonitro.<br>Sicrwydd bod camau'n cael eu cynnal. | Nac ydy | Do | Bydd trosolwg o'r camau o'r archwiliad gwersi a ddysgwyd yn cael ei fonitro gan y Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth a Dysgu ac eithrio adroddiadau a anfonir at y tîm Gweithredol. | Diwedd Mai 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru